

Gwasanaeth Cymdeithasol Addysg

CYFLOGI PLANT

Os ydych yn ddisgybl ysgol
darllenwch y daflen hon



Gwasanaethau Addysg
Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth
Bae Colwyn, LL28 4UL
☎: (01492) 575 096

Y FFEITHIAU

- Rhaid i chi fod yn **13 oed** i allu gweithio yn rhan amser.
- Gallwch weithio ar ôl **7:00 a.m.** neu cyn **7:00 p.m.**
- Cyn i chi ddechrau, rhaid i'ch **cyflogwr** eich cofrestru gyda'r Awdurdod Addysg Lleol ac yna cysylltir â'ch ysgol ynglyn â'ch presenoldeb a'ch datblygiad.

Y GYFRAITH

- Os na wnaiff y cyflogwr eich cofrestru, gallai olygu na fyddwch wedi cael eich yswirio rhag damweiniau.
- 2 awr yw'r uchafswm allwch ei weithio ar ddiwrnod ysgol.
- Os ydych o dan 15 oed gallwch weithio am 5 awr ar ddydd Sadwrn ac yn ystod y gwyliau.
- Os ydych yn 15 oed neu drosodd gallwch weithio 8 awr ar ddydd Sadwrn ac yn ystod y gwyliau.
- Ni chaiff neb weithio mwy na 2 awr ar ddydd Sul.
- Ni chaiff neb weithio mwy na 4 awr y dydd heb gyfnod gorffwys o awr.
- Ni allwch adael yr ysgol hyd y dydd Gwener olaf ym Mehefin, hyd yn oed pe bai gennych Rif Yswiriant Cenedlaethol.
- Rydych yn blentyn mewn Cyflogaeth hyd y dyddiad Gadael Ysgol Cenedlaethol.

SWYDDI NA ELLWCH EU GWNEUD:

- ▶ Dosbarthu llefrith;
- ▶ Gwerthu alcohol;
- ▶ Gwerthu sigarenau a moddion;
- ▶ Bod ynghlwm â hap chwarae;
- ▶ Gwerthu ar y stryd;
- ▶ Gwerthu o ddrws i ddrws;
- ▶ Gwaith sy'n defnyddio peiriannau peryglus;
- ▶ Unrhyw waith all achosi niwed neu anaf i chi.

LLEFYDD NA ELLIR GWEITHIO YNDDYNT:

- ▶ Mewn arcêd difyrrwch neu ffair;
- ▶ Mewn cegin neu siop sglodion;
- ▶ Ar y stryd;
- ▶ Mewn stordy neu ffatri;
- ▶ Mewn lladd-dy;
- ▶ Mewn theatr, sinema, disgo neu glwb nos. (oni bai fod trwydded ganddoch i berfformio yno)

RYDYM EISIAU I CHI FOD YN DDIOGEL:

- Byddwch yn ofalus a synhwyrol;
- Dywedwch am unrhyw bryderon wrth eich cyflogwr;
- Mae'r cyflogwr yn gyfrifol am eich Iechyd Diogelwch a'ch Lles;
- Siaradwch â'ch rhieni am y gwaith a'r cyflog;
- Gofynnwch i'r cyflogwr eich cofrestru;
- Peidiwch a gwneud unrhyw waith allai achosi niwed neu anaf i chi;
- Peidiwch a gadael iddo effeithio ar eich gwaith ysgol.

GELLWCH GAEL EI ATAL RHAG GWEITHIO:

- Os na fyddwch yn dweud wrth yr Awdurdod Addysg Lleol o fewn wythnos o ddechrau gweithio;
- Os na fyddwch yn mynychu'r ysgol;
- Os ydych yn hwyr i'r ysgol;
- Os yw eich gwaith ysgol yn dioddef;
- Os yw eich iechyd yn dioddef.

Am ragor o wybodaeth cysyllter â'r:

Gweithiwr Cymdeithasol Addysg yn eich ysgol
neu'r

Gwasanaethau Addysg:

☎: (01492) 575 096